

Athrawes dosbarth derbyn yn **Ysgol Glan-y-Pant** oedd **Miss Daniels**.

Roedd pawb yn hoffi **Miss Daniels**, gan gynnwys pob un o'r disgyblion.



Roedd gan **Miss Daniels** wên gynnes oedd yn codi calon pawb. Roedd hefyd ganddi wallt hir, hir, hir a oedd yn cael ei glymu'n ôl â rhuban **porffor**.

Bob dydd byddai **Miss Daniels** yn gwisgo sbectol **borffor** a oedd yn gwneud i'w llygaid **brown** edrych yn enfawr. Ac oherwydd y sbectol yma, roedd **Miss Daniels** yn gallu gweld popeth, hyd yn oed **Ben** yn pigo'i drwyn.



Hi oedd yr athrawes orau yn yr ysgol o bell ffordd, yn enwedig pan fyddai'n rhoi **losin** i'r disgyblion bob brynhawn Gwener.



Ar un fore Mawrth diflas casglodd **Miss Daniels** disgyblion dosbarth derbyn **Ysgol Glan-y-Pant** at ei gilydd ar y carped darllen.

Roedd hi'n amser stori a heddiw, am y tro cyntaf, roedd **Miss Daniels** am ddarllen llyfr o'r enw **Y Llyfr Llyncu**. Stori ydoedd am fachgen, o'r enw **Dylan**, sy'n cael ei lyncu i mewn i lyfr - ac roedd pawb yn edrych ymlaen at glywed y diweddglo!



Cliriodd **Miss Daniels** ei gwddf yn ddramatig cyn dechrau darllen y stori,

“Un diwrnod, roedd **Dylan** yn chwarae yn atig ei Nain a Taid pan ddaeth o hyd i lyfr **porffor**. Chwythodd y dwst oddi ar glawr y llyfr i weld teitl y llyfr, sef **Y Llyfr Llyncu**. Agorodd **Dylan** y llyfr ac mewn **fflach**, **fflop** a **ffrat** diflannodd **Dylan** i mewn i'r llyfr.”



Wrth i **Miss Daniels** barhau i ddarllen y stori dechreuodd mwg **gwyrdd** ymddangos.

Yn sydyn, roedd fflachiadau **porffor** a sŵn hisian yn dod o'r llyfr, ac yna **BANG!**

Un eiliad roedd **Miss Daniels** yn darllen y stori a'r eiliad nesaf roedd y llyfr wedi cwmpo i'r llawr a dim golwg ohoni hi yn un man.

Dechreuodd plant dosbarth derbyn **Ysgol Glan-y-Pant** chwilio ymhob twll a chornel amdani.

O dan y byrddau. O dan y cadeiriau. Tu ôl y bwrdd gwyn.
Tu ôl y silff lyfrau. Ac hyd yn oed o dan y sinc...
ond doedd dim golwg ohoni o hyd.



Roedd **Miss Daniels** wedi cael ei llyncu i mewn i'r llyfr!

“Beth dylwn ni ‘neud?” holodd **Mari**.

Edrychodd pawb yn ddryslyd. Doedd neb yn gwybod beth oeddech chi fod i’w wneud pan roedd eich hathrawes wedi cael ei llyncu i mewn i lyfr.

“Beth am gael parti?” holodd **Ben**.

“Ond sut allwn ni gael parti heb **Miss Daniels**? Does dim cacen yma hyd yn oed!” eglurodd **Manon**.

“Ond beth arall allwn ni ‘neud?!” atebodd **Ben**.

“Beth am weld sut mae **Dylan** yn dod allan o’r llyfr?” cynigodd **Mari**.

Yn ôl y stori, yr unig ffordd o gael **Miss Daniels** allan o’r llyfr oedd trwy adeiladu fersiwn ohoni.

Felly, dechreuodd disgyblion dosbarth derbyn **Ysgol Glan-y-Pant** gasglu pethau o bob lliw a llun ar frys i greu eu fersiwn nhw o **Miss Daniels**.

Casglodd **Mari** focs glud ar gyfer ei thraed.

Casglodd **Ben** glustog ar gyfer ei bol.

Casglodd **Manon** fop ar gyfer ei gwallt.

A chasglodd **Mari** bensiliau lliw **porffor** ar gyfer ei sbectol.

Cyn pen dim roedd yna rywbeth a oedd yn edrych yn debyg i **Miss Daniels** yn eistedd ar y gadair o flaen y plant.

Ond roedd dal dim golwg o’r **Miss Daniels** go-iawn.

Yr unig beth ar ôl i'w wneud oedd croesi eu bysedd a chau eu llygaid yn dynn, dynn gan obeithio eu bod wedi gwneud digon i ddod â'u hoff athrawes yn ôl.

Yn sydyn, roedd yna fwg **gwyrdd** a fflachiadau **porffor** yn gorchuddio'r gadair, ac yna **BANG!**

Cyn i unrhyw un wneud yr un smic ymddangosodd **Miss Daniels** o'r mwg.

Bloeddiodd y disgyblion yn hapus
"Hwreeee!"

Roedd dosbarth derbyn **Ysgol Glan-y-Pant** wedi llwyddo i achub **Miss Daniels** rhag **Y Llyfr Llyncu**.



Y diwrnod hwnnw, er nad brynhawn
Gwener oedd hi, cafodd bob un ohonynt
losin am eu hymdrechion arwrol.



Gan Rhiannon Lloyd Williams a Sioned Medi Evans